Dod â pherthynas i ben – parau di-briod sy'n cydfyw

Mae'r wybodaeth sydd ar y daflen ffeithiau hon yn berthnasol i barau un-rhyw a heterorywiol.

Os ydych yn byw gyda'ch partner ond nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil ac mae eich perthynas yn dod i ben, nid oes angen i chi gymryd camau cyfreithiol i ffurfioli eich gwahaniad. Fodd bynnag, efallai bod materion sy'n ymwneud â phlant, tai, eiddo neu arian i'w datrys. Gallwch wneud hyn drwy lunio cytundeb gwahanu a allwch ei wneud gyda chymorth cyfreithiwr.

Cytundebau gwahanu

Mae cytundeb gwahanu yn eich caniatáu i ddatrys trefniadau ymarferol ar gyfer y dyfodol. Gallwch gytuno, er enghraifft, ar ba un ohonoch sy'n aros adref, neu fod un ohonoch yn gwneud taliadau wythnosol i'r llall ar gyfer cynhaliaeth y plant, neu dalu'r rhent neu'r taliadau morgais neu dalu biliau'r cartref.

Gallech wneud cytundeb llafar gyda'ch partner am y pethau hyn. Mae hyn yn osgoi gorfod talu costau cyfreithwyr. Fodd bynnag, rydyn ni'n eich cynghori i gael cytundeb ysgrifenedig a chyngor cyfreithiol gan gyfreithiwr am beth ddylid ei gynnwys yn y cytundeb a sut i'w lunio. Mae hyn yn bwysig oherwydd efallai y gall effeithio ar eich sefyllfa ariannol yn yr hirdymor. Mae hefyd yn golygu y gallwch ofyn i'r llys i gynnal telerau'r cytundeb os oes unrhyw anghydfod rhyngoch chi a'ch partner nes ymlaen.

Efallai y gallwch gael cymorth gyda chostau cyfreithiol llunio cytundeb gwahanu dan y **cynllun cymorth cyfreithiol** - gweler Cymorth Pellach.

Cyfryngu Teuluol

Os ydych chi a'ch partner yn ei chael yn anodd dod i gytundeb gwirfoddol, gallech ofyn am gymorth **cyfryngwr teuluol**. Mae cyfryngu teuluol yn ffordd o'ch helpu i ddatrys eich gwahaniaethau yn deg, a dod i benderfyniadau eich hun. Mae'n ddewis amgen i gyfreithwyr yn trafod ar eich rhan, neu gael penderfyniadau wedi'u gwneud ar eich cyfer gan y llys. Nid oes gan y cyfryngwr bŵer i orfodi trefniant - bydd y cyfrifoldeb ar gyfer pob penderfyniad yn parhau gyda chi a'ch partner. Byddwch hefyd yn cael eich annog i ymgynghori â chyfreithiwr yn ystod y broses cyfryngu i'ch cynghori ar ganlyniadau personol eich penderfyniadau. Ar ddiwedd y sesiynau cyfryngu, gall eich cyfreithiwr lunio cytundeb cyfreithiol sy'n seiliedig ar eich penderfyniadau chi.

Os hoffech chi wneud cais i'r llys am orchymyn i ddatrys anghydfod ynglŷn â phlant, arian neu eiddo, yn y rhan fwyaf o achosion fe fydd yn rhaid i chi gysylltu â chyfryngwr a threfnu Cyfarfod Cyfryngu a Gwybodaeth i ddarganfod p'un ai eich bod yn gallu datrys yr anghydfod heb orfod mynd i'r llys. Gellir cynnal y cyfarfod ar y cyd neu ar wahan. Bydd yna rai sefyllfaoedd lle na fydd yn rhaid i chi fynychu cyfarfod, er enghraifft, pan fydd yr heddlu yn ymchwilio i drais domestig.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Mae'n bosib y cewch gymorth ariannol i'ch helpu i dalu am gyfryngu teuluol. Bydd hyn yn dibynnu ar eich amgylchiadau.

Gall Llinell Gymorth Cyfryngu Teuluol ar wefan y Weinyddiaeth Cyfiawnder yn www.familymediationhelpline.co.uk neu wefan y gwasanaeth Cyfryngu Teuluol Cenedlaethol yn www.nfm.org.uk.

Cewch hefyd wybodaeth am gyfryngwyr teuluol ar wefan ADR Now: www.adrnow.org.uk.

Plant

Pan fod perthynas yn dod i ben, byddwch chi a'ch partner yn gyfrifol am gynnal eich plant yn ariannol, pa le bynnag y mae'r plentyn yn byw.

Os nad yw'n bosibl i chi ddod i gytundeb gwirfoddol ynghylch gofal eich plant, gellir gofyn i'r llys ymyrryd. Gall y llys gosod gorchmynion ynghylch gyda phwy y dylai'r plentyn fyw. Bydd y gorchymyn fel arfer yn caniatáu cyswllt rhwng y plentyn a'r rhiant nad yw'r plentyn yn byw ganddo, heblaw bod yna amgylchiadau eithriadol.

Os yw eich plant yn byw gyda chi ar ôl i'ch perthynas ddod i ben, gallwch ddefnyddio'r **Asiantaeth Cynnal Plant** (CSA) er mwyn derbyn cynhaliaeth am y plant, er nad oes rhaid i chi wneud hyn.

Arian ac eiddo

Os nad ydych yn briod neu mewn partneriaeth sifil, nid oes rhaid i chi neu'ch partner ddarparu cynhaliaeth ariannol i'r llall ar ôl i'ch perthynas ddod i ben. Fodd bynnag, mae gan y ddau ohonoch gyfrifoldeb ariannol dros unrhyw blant (gweler uchod).

Os ydych wedi bod yn ariannol ddibynnol ar eich partner ac nid ydych yn gweithio, neu rydych yn gweithio llai na 16 awr yr wythnos, mae'n bosib y gallwch hawlio budd-daliadau, er enghraifft Cymhorthdal Incwm neu Lwfans Ceisio Gwaith sy'n seiliedig ar incwm.

Os ydych yn gweithio 16 awr yr wythnos neu'n fwy, mae'n bosib y gallwch dderbyn Credyd Treth Gwaith. Os oes gennych blant, efallai y gallwch gael Credyd Treth Plant.

Mae'n bosib y gallwch gael Budd-dal Tai a Budd-dal y Dreth Gyngor i'ch helpu i dalu eich rhent neu'r dreth gyngor, p'un ai eich bod yn gweithio neu beidio.

Os ydych eisoes yn cael budd-daliadau neu gredydau treth, dylech ddweud yn syth wrth eich swyddfa budd-daliadau lleol neu linell gymorth Credyd Treth Cyllid a Thollau EM eich bod wedi gwahanu.

Os oes gennych chi a'ch partner **gyfrif banc ar y cyd**, gallwch barhau i ddefnyddio'r cyfrif a threfnu bod y cyfriflenni banc ac unrhyw ohebiaeth arall yn cael ei anfon at y ddau ohonoch. Fodd bynnag, gan fod un o ddeiliaid y cyfrif yn gallu codi ychydig neu'r holl arian sydd yn y cyfrif heb ganiatâd y deiliad arall, mae'n bosib y byddwch

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

am gau'r cyfrif ac agor cyfrif unigol. Mae'n syniad da i chi rhewi'r cyfrif ar y cyd er mwyn sicrhau nad yw eich partner yn gallu codi arian ohono.

Gall penderfynu sut i rannu **eiddo** rhyngoch chi a'ch partner fod yn gymhleth, ond dylai'r rheolau canlynol eich helpu i benderfynu:

- mae'r eiddo yr oeddech yn berchen arno cyn dechreuoch fyw gyda'ch partner yn parhau i fod eich eiddo chi
- os brynoch chi'r eitem, fel arfer chi sy'n berchen arno
- os prynwyd yr eiddo o'r cyfrif ar y cyd, chi a'ch partner sy'n berchen arno
- os ydych yn rhoi eiddo i'ch partner, eich partner sy'n berchen arno. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd ei brofi
- os ydych yn rhoi arian cadw tŷ i'ch partner, fel arfer mae unrhyw eiddo sy'n cael ei brynu gyda chynilion o'r arian hwnnw yn eiddo i chi.

Tai

Os ydych am barhau i fyw yn eich cartref heb eich partner, mae p'un ai fod hyn yn bosibl neu beidio yn dibynnu ar ba hawliau cyfreithiol sydd gennych ar eich cartref a ph'un ai y gallwch ddod i drefniant gyda'ch partner.

Os ydych yn penderfynu gadael eich cartref, mae'n bosib y gallwch wneud cais am lety hirdymor i'ch awdurdod lleol fel person digartref – gweler Cymorth Pellach.

Gall llys orchymyn pwy ddylai aros yn y cartref am gyfnod a throsglwyddo'r tenantiaeth. Os oes yna blant, gall y llys gynnwys eiddo fel rhan o gytundeb cyffredinol i ddiogelu'r plant.

Tenantiaid

Os ydych yn rhentu llety gyda'ch partner, mae'n bosib bod enwau'r ddau ohonoch ar y cytundeb tenantiaeth. Os yw eich partner yn gadael, neu'n gofyn i chi adael pan hoffech aros ac nid yw eich enw ar y cytundeb tenantiaeth, gallwch ofyn i'r llys drosglwyddo'r denantiaeth i'ch enw chi. Gallwch hefyd ofyn i'r llys wneud hyn os yw enwau'r ddau ohonoch ar y cytundeb tenantiaeth. Bydd y llys yn ystyried yr holl amgylchiadau cyn gwneud penderfyniad. Os ydych mewn sefyllfa fel hyn, mynnwch gyngor cyfreithiol.

Perchnogion preswyl

Mae'n bosib mai dim ond un enw sydd ar yr eiddo neu efallai bod y ddau ohonoch yn berchen arno. Os mai eich partner yw'r **unig berchennog**, mae'n bosib nad oes gennych unrhyw hawl i aros yn y cartref os yw eich partner yn gofyn i chi adael. Fodd bynnag, os oes gennych blant, gallwch ofyn i'r llys drosglwyddo'r eiddo i'ch enw chi. Os nad oes gennych blant, mae'n bosib y gallwch ddatgan diddordeb ariannol yn eich cartref os allwch ddangos eich bod wedi gwneud cyfraniad ariannol drwy, er enghraifft, talu am welliannau neu ad-dalu'r morgais. Mynnwch gyngor cyfreithiol ynglŷn â hyn.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr

Os nad ydych yn **cyd-berchen** ar eich tŷ ac rydych yn penderfynu gadael, dylech gymryd camau i amddiffyn eich hawl i ddychwelyd os ydych eisiau. Bydd hefyd angen i chi ddiogelu eich cyfran yng ngwerth eich cartref drwy sicrhau nad yw eich partner yn ei werthu heb yn wybod i chi. Bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch ynglŷn â hyn.

Cymorth ychwanegol

Y Ganolfan Cyngor ar Bopeth
Mae'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd ac annibynnol yn rhad ac am ddim i'ch helpu chi i ddatrys eich problemau. I ddod o hyd i'ch CAB agosaf, gan gynnwys y rheiny sy'n rhoi cyngor drwy e-bost, cliciwch ar CAB agosaf, neu edrychwch yn eich llyfr ffôn dan y llythyren C.

Adviceguide
Mae'r taflenni canlynol ar wefan Adviceguide yn rhoi mwy o wybodaeth am rhai o'r materion a godwyd yn y daflen ffeithiau hon:

- Cymorth gyda chostau cyfreithiol
- Defnyddio cyfreithiwr
- Pa fudd-daliadau sydd ar gael i mi?
- Dod o hyd i lety

Caiff y dudalen ffeithiau hon ei chynhyrchu gan Gyngor ar Bopeth, enw gweithredol Cymdeithas Genedlaethol y Canolfannau Cyngor ar Bopeth. Ei ddiben yw darparu gwybodaeth gyffredinol yn unig ac nid yw'n ddatganiad llawn o'r gyfraith. Mae'r wybodaeth yn berthnasol i Loegr a Chymru yn unig.

Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ar 9 Medi 2011, a chaiff ei adolygu bob mis. Os ydych wedi cael y daflen ffeithiau hon am gyfnod, cysylltwch â'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth er mwyn gwirio os yw'r wybodaeth sydd arni yn dal i fod yn gywir. Neu rhowch glic ar ein gwefan - - www.adviceguide.org.uk – lle gallwch lawrlwytho copi diweddaraf.

Hawlfraint © 2002-2010 Cyngor ar Bopeth. Cedwir pob hawl
Rhif elusen gofrestredig: 279057 Rhif y cwmni: 1436945 Lloegr